**Cwm Taf Morgannwg**
**Grŵp Cymorth Cydweithredol Tai Rhanbarthol (GCCTRh)**
**18 Gorffennaf 2023** – (Teams Microsoft)
**Cofnodion Ch2**

| Yn Bresennol | | Yn Cynrychioli |
|---|---|---|
| Y Cyng Geraint Thomas (Cadeirydd) | GT | CBSMT |
| Suzanne Stephens | SS | Adran Tai CBSMT |
| Hannah Mills | HM | Adran Tai CBSMT |
| Susan Preece | SP | Adran Tai CBSRhCT |
| Ryan Jones | RJ | Adran Tai CBSPYBAO |
| Jessica Ware | JW | Adran Tai CBSPYBAO |
| Kevin Reeves | KR | Cynrychiolydd Cyfiawnder Ieuenctid (Dirprwy) |
| Rachel Honey-Jones | RHJ | Cynrychiolydd Tai y BPRh |
| Emma Howells | EH | Cynrychiolydd Tai y BPRh (Dirprwy) |
| Gary Hortop | GH | Cynrychiolydd Tai y BPRh |
| Emma Richards | ER | Cynrychiolydd y Gwasanaeth Prawf |
| Chrystelle Walters | CW | Cynrychiolydd Iechyd Meddwl Ieuenctid |
| Sarah O'Keeffe | SOK | Cynrychiolydd Landlordiaid Tai Cymdeithasol |
| Lorraine Griffiths | LG | Cynrychiolydd Darparwr Cymorth |
| Mariam Elmirghani | ME | Cynrychiolydd Darparwr Cymorth |
| Deborah Evans | DE | Cynrychiolydd VAWDASV y BPRh |
| Kelly Francis | KF | Cydgysylltydd Datblygu Rhanbarthol |

| | |
|---|---|
| 1 | **<u>Croeso a Datgan Buddiannau</u>:**<br>Rhoddodd y Cadeirydd gyfle i bawb gyflwyno'u hunain.<br><br><u>Ymddiheuriadau</u><br>Y Cyng Michelle Symonds, y Cyng Bob Harris, Cheryl Emery, Rachel Gronow a Christa Bonham-Griffiths. |
| 2 | **<u>Cofnodion y Cyfarfod Blaenorol a'r Camau Gweithredu</u>:**<br><br><u>Cofnodion</u>: Cytunwyd bod cofnodion y cyfarfod blaenorol yn gywir. Eglurodd RHJ fod Nicola Eynon wedi dirprwyo ar ei rhan yng nghyfarfod diwethaf y GCCTRh.<br><br><u>Camau gweithredu</u>:<br>1. KF i weld pa gynnydd sydd wedi'i wneud gyda'r Prosiect LHDTC+.<br>*Diweddariad: Cadarnhaodd y Cadeirydd y bydd hyn yn cael ei drafod yn y cyfarfod heddiw fel rhan o Eitem 3, Papur B.*<br>2. KF ac HM i atgyfnerthu'r blaenoriaethau ar y Cynllun Gwaith 23/24.<br>*Diweddariad: Eglurodd y Cadeirydd fod y Cynllun Gwaith a'r Crynodeb wedi'u cyflwyno i Lywodraeth Cymru ar 30 Mai a bod Papurau E ac F wedi'u darparu heddiw er gwybodaeth.*<br>3. Kelly Francis i ymrestru Rachel Thomas fel aelod a chysylltu â Chrystelle Walters.<br>*Diweddariad: Cytunodd arweinwyr GCT i recriwtio Chrystelle fel y cynrychiolydd iechyd meddwl, ac mae hi yma heddiw.*<br>4. Lorraine Griffiths i geisio recriwtio cynrychiolydd addas ar gyfer Llais y Defnyddwyr Gwasanaeth. |

| | |
|---|---|
| | *Diweddariad: Cadarnhaodd LG ei bod wedi codi'r mater gyda'r Fforwm Darparwyr Rhanbarthol ac y bydd ystyriaeth bellach yn cael ei rhoi i'r mater yn y Fforwm Cynllunio Rhanbarthol nesaf ar 25 Medi.* |
| **3**<br><br>**3.1** | **<u>CTM – Y Diweddaraf ar Brosiect Rhanbarthol</u>:**<br><br>**Cynllun Gwaith ar gyfer Llety â Chymorth LHDTC+:**<br><br>Ar ôl cyflwyno Cynllun Gwaith CTM 23/24 i LlC, cadarnhaodd RJ fod yr Arweinwyr GCT wedi cytuno i ganolbwyntio ar y camau gweithredu canlynol wrth symud ymlaen:<br><br>1) Gweithredu tri o argymhellion LHDTC+:<br>• Pob Gwasanaeth Digartrefedd yr ALl i ofyn am ddata ynghylch hunaniaeth ryweddol a chyfeiriadedd rhywiol y bobl ifanc sy'n cofrestru am gymorth, ac i wneud hynny fel arfer safonol a'i gofnodi'n ddiogel.<br>• Dylai hyfforddiant ar ymwybyddiaeth ddiwylliannol a chynhwysiant fod yn orfodol i'r holl staff sy'n gweithio gyda phobl ifanc mewn lleoliadau digartrefedd a lleoliadau eraill.<br>• Dylai pob Awdurdod Lleol ddatgan ymrwymiad tuag at yr "Hawl i Barch", a gweithio gyda phartneriaid i gyd-gynhyrchu Siarter Parch.<br>2) Cynnal Astudiaeth Ranbarthol Gychwynnol o anghenion llety pobl ddigartref ag anghenion cymhleth.<br><br>Bydd Grŵp Gorchwyl a Gorffen yn cael ei sefydlu ac yn cynnwys un cynrychiolydd o bob ALl. Gofynnodd KF i unrhyw wirfoddolwyr ddod ymlaen cyn gynted â phosibl fel y gellir ffurfio'r grŵp. |
| **4**<br><br><br><br><br>**4.1** | **<u>Tai/Digartrefedd</u>**:<br><br>Rhoddodd arweinwyr y Grant Cymorth Tai ddiweddariadau byr ar safbwyntiau'r Awdurdodau Lleol o fewn Cwm Taf Morgannwg, fel a ganlyn:<br><br>**CBSPYBAO – RJ:**<br>Mae lletyau dros dro o dan bwysau mawr ac mae'r galw amdanynt yn dal i dyfu. Mae hyn hefyd yn arwain at fwy o fwciadau Gwely a Brecwast ad hoc wrth i fwy a mwy o bobl ofyn am lety. Rydyn ni'n edrych ar ffyrdd o gynyddu modelau llety dros dro, yn ogystal ag agor llety hirdymor newydd ym mis Hydref 2023, i gynnwys 5 uned ar gyfer cleientiaid ag anghenion cymhleth.<br><br>Mae mwy o ddiddordeb yn y sector preifat ac felly, rydyn ni'n edrych ar ffyrdd o gysylltu â Chynllun Prydlesu'r Sector Rhentu Preifat Cenedlaethol.<br><br>Dywedodd GH fod diddordeb o fewn CMT yn y lletyau gofal preswyl hynny a gaewyd a'r posibilrwydd o'u hailddefnyddio.<br><br>Gofynnodd SOK a fyddai'r cyfnod gwyliau'n effeithio ar floclogi a chadarnhaodd RJ fod bwciadau wedi'u gwneud eisoes ar gyfer gwyliau'r haf ond y tebyg yw y byddai'n rhaid bwcio hyd yn oed mwy i ddal i fyny â'r galw presennol.<br><br>Ymholodd SOK ynghylch y posibilrwydd o gartrefi modiwlar a chadarnhaodd GH ei fod yn fodlon darparu unrhyw wybodaeth y gall ei gydweithwyr eu rhoi ynghylch y Prosiect Cartrefi Modiwlar yn Hill Street, Casnewydd.<br><br>Eglurodd SP fod y Grant Tai Cymdeithasol ynghlwm am y 2 i 4 blynedd nesaf a bod angen mwy o gefnogaeth a gwasanaethau allgymorth gan fod y galw yn cynyddu'n wythnosol.<br><br>**Cam Gweithredu:**<br>Soniodd SOK am y gwasanaeth cofleidiol 24 awr ac y byddai KF yn cysylltu â hi i gael rhagor o wybodaeth am hyn. |

| | |
|---|---|
| 4.2 | ***Diweddariad:*** *Cyfeirir at y cynllun fel "cynllun a reolir". Mae'r bloc yn cynnwys 49 o fflatiau ar gyfer pobl dros 55 oed sy'n ddigartref a lle ceir trawstoriad o gyflyrau sydd angen cymorth - camddefnyddio sylweddau, byw mewn hosteli, ymdrin ag iechyd meddwl, a chysgu ar y stryd. Mae'r Gwasanaeth Rheoli Tai ar gael 24 awr y dydd ar y safle ac mae'n cael ei reoli gan yr ALl; mae hyn oherwydd eu bod yn cydnabod y bydd angen cymorth parhaus ar bobl sy'n cael eu cartrefu i atal eu tenantiaeth rhag methu. Yn ogystal â hynny, mae'r ALl yn gallu cyrchu a darparu gwasanaethau cofleidiol arbenigol yn ôl yr angen i ddiwallu anghenion cymorth y preswylwyr.* |
| 4.3 | **CBSMT – SS:**<br>Rydyn ni'n ddibynnol iawn ar Letyau Gwely a Brecwast gyda phob ystafell yn llawn ar hyn o bryd, ond ar nodyn cadarnhaol, fe sefydlwyd dau dŷ amlfeddiannaeth newydd.<br><br>Ceir problemau'n ymwneud â'r Ddeddf Tai ar Rent, yn enwedig y methiant i ddod â chontractau i ben yn gyflym, hyd yn oed os caiff rhywun ei alw'n ôl i'r carchar.<br><br>**Cam Gweithredu:**<br>Eglurodd RJ fod Pen-y-bont ar Ogwr wedi comisiynu darn o waith i gael arweiniad clir ar estyniadau trwyddedau ac ati, a'i fod yn hapus i'w rannu unwaith y cytunir arno'n derfynol o fewn yr ychydig fisoedd nesaf. Roedd yr Arweinwyr GCT yn croesawu'r ffaith y caiff y ddogfen hon ei rhannu.<br><br>Mae staff yn cael trafferth gyda pha mor hir y mae'n rhaid i bobl aros mewn llety dros dro, ond mae'r cartrefi modiwlar sydd wedi bod yn y broses o gael eu datblygu oddi ar 2020 yn wynebu llawer o rwystrau.<br><br>Cadarnhaodd y Cadeirydd y gall cynllunio fod yn rhwystredig wrth edrych ar gartrefi modiwlar ym Merthyr, ac ar ben hynny, ni ellir adeiladu unrhyw gartrefi newydd yng nghanol y dref oherwydd Rheoliadau TAN15 a'r perygl o lifogydd.<br><br>**CBSRhCT – SP:**<br>Mae'r galw am wasanaeth yn uchel ac mae'r Lletyau Dros Dro i gyd yn llawn felly, rydyn ni'n defnyddio Lletyau Gwely a Brecwast nad oedd yn cael eu defnyddio o'r blaen.<br><br>Mae llawer o bobl yn datgan bod ganddynt anghenion cymhleth ac felly mae angen iddynt ystyried model gwahanol ar gyfer y rhain yn benodol.<br><br>Rydyn ni'n edrych ar ddau adeilad addas ar hyn o bryd ac mae angen sicrhau bod y refeniw ar gael, oherwydd heb staff a chefnogaeth barhaus, ni fyddant yn llwyddo. Cytunodd GH fod refeniw yr un mor bwysig â chyfalaf. |
| **5** | **<u>Diweddariadau'r Partneriaid a'r Rhanddeiliaid</u>**<br><br>**Diweddariad Fforwm Darparwyr Rhanbarthol (FfDRh) CTM - LG:**<br>Yn ystod y FfDRh diweddaraf ym mis Mai, codwyd y materion canlynol:<br>- Gofynnwyd am ragor o wybodaeth ynghylch y rheswm am ohirio'r Peilot BME. Mae HM wedi darparu esboniad ysgrifenedig, a gaiff ei gyflwyno yn y cyfarfod nesaf.<br>- Mae tegwch cyflog o fewn y sector yn broblem barhaus ynghyd â'r ffaith nad yw mor gystadleuol â sectorau eraill.<br>- Mae'r gost o recriwtio staff newydd yn uchel ac fe gollir staff o ansawdd da i swyddi sy'n talu'n well.<br>- Mae recriwtio a chadw staff yn parhau i fod y broblem fwyaf.<br><br>Cynhelir y FfDRh nesaf ym mis Medi.<br><br>Cadarnhaodd GH eu bod wedi colli staff i swyddi GIG ar ôl eu hyfforddi ac efallai na fydd yr Ymgynghoriad Ailgydbwyso Gofal a Chymorth yn gwneud yr hyn sydd ei angen o ran fframweithiau cyflog a dilyniant.<br><br>Eglurodd SP fod ALlau yn colli staff ar lawr gwlad i Gymdeithasau Tai, sydd yn ei dro yn rhoi hyd yn oed mwy o bwysau ar y gwasanaeth. Yn ddelfrydol, byddai ALlau yn derbyn mwy o gyllid i fedru cynnig cyflogau mwy cystadleuol. |

<table>
<tr><td></td><td>Tynnodd RJ sylw at y ffaith y bydd angen i unrhyw newidiadau gael eu harwain gan Lywodraeth Cymru er mwyn cyfarwyddo Awdurdodau Lleol i newid holl delerau ac amodau’r Sector Tai.<br>Mae angen i Gydraddoldeb Cyflog yn y Sector Tai aros ar frig yr agenda i bawb.<br><br>Diweddariad ynghylch Landlordiaid Tai Cymunedol – SOK:<br>Mae’r sector mewn argyfwng oherwydd bod pobl heb unrhyw anghenion ychwanegol sy’n ceisio rhentu, yn ei chael hi’n anodd ac yn rhy gostus.<br><br>Nid yw hyfforddi staff bob amser yn talu ar ei ganfed gan y byddant yn gadael am fwy o arian mewn sector gwahanol.<br><br>Ni ellir adeiladu tai yn ddigon cyflym ond nid oes unrhyw ddatblygiadau gan Wales & West yn rhanbarth CTM ar hyn o bryd.<br><br>Diweddariad gan y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol – GH:<br>Bydd SP yn cysylltu â GH am ddiweddariadau pellach ynghylch y Cynllun Gofal Ychwanegol yn Y Porth sy’n mynd trwy broses ail-dendro.<br><br>Diweddariad gan Fwrdd Partneriaeth Rhanbarthol VAWDASV – DE:<br>Mae strwythur llywodraethu cwbl newydd yn cael ei ddatblygu gyda glasbrint diwygiedig.<br>Mae Grant Cyfalaf ar gyfer lletyau gwasgaredig yn iawn ond nid felly’r Cronfeydd Cynnal Refeniw.<br>Rydyn ni’n cael trafferth recriwtio a chadw staff.<br><br>Diweddariad gan Gynrychiolwyr yn y Maes Iechyd Meddwl – CW:<br>Eglurodd CW ei bod ond yn cynrychioli’r gwasanaeth ar gyfer y rhai dan 18 oed yn ardal Cwm Taf.<br>Mae llesiant a chymorth emosiynol ar gael i gleifion ag anghenion cymhleth ac sy’n cael anhawster i gyrchu cymorth yn gyffredinol.<br><br>Diweddariad ynghylch y Gwasanaeth Prawf – ER:<br>Rydyn ni’n teimlo effaith y rhai mewn lletyau dros dro ac yn ceisio gweithio gyda phartneriaid.<br>Mae CAS 1, 2, a 3 yn gyllid rhad ac am ddim os yw’r grŵp angen cyflwyniad, gellir ei ddarparu yn y cyfarfod nesaf i amlygu’r gwahaniaethau rhyngddynt.<br>Gofynnodd SP a all ER anfon e-bost ati ynghylch unrhyw faterion penodol mewn perthynas â RhCT fel y gall yr ALl ymdrin â nhw a’u cefnogi os oes bylchau.<br>Mae gwasanaethau prawf ar gyfer Merthyr Tudful yn dal i gael eu darparu o Bontypridd tan y ceir hyd i leoliad addas.<br>Gofynnodd ER a all unrhyw un roi gwybod iddi am unrhyw leoedd y gellir eu rhannu, a dywedodd y Cadeirydd y byddai’n codi’r mater yn y Cyngor.</td></tr>
<tr><td>6</td><td><u>Blaenoriaethau Rhanbarthol 2023/24</u>:<br><br>Rhestr Aelodaeth - Mehefin 2023:<br><br>Diolchodd KF i’r Cadeirydd am ei holl gefnogaeth a mewnbwn i gyfarfodydd y GCCTRh. Hwn fydd cyfarfod olaf GT a bydd colled fawr ar ei ôl fel aelod gwerthfawr.<br><br>Cylch Gorchwyl - GCCTRh CTM:<br><br>Cytunodd pawb y gellir eu cymeradwyo ar gyfer 2023/24.<br><br>Cynllun Gwaith CTM ar gyfer 23/24 a Chrynodeb o’r Cynllun Gwaith:<br><br>Bydd y Grŵp Gorchwyl a Gorffen yn cynnwys SP ar gyfer RhCT, EM ar gyfer Merthyr a JW ar gyfer Pen-y-bont ar Ogwr.</td></tr>
</table>

| | |
|---|---|
| | **Cam Gweithredu:**<br>Bydd KF yn trefnu Cyfarfodydd Grŵp Gorchwyl a Gorffen, er mwyn trafod ac archwilio prif flaenoriaethau'r ddau gam gweithredu canlynol:<br>1) gweithredu tri o argymhellion LHDTC+;<br>2) cynnal astudiaeth ranbarthol gychwynnol o anghenion llety ymysg pobl ddigartref ag anghenion cymhleth.<br>***Diweddariad:*** *Cyfarfod cyntaf wedi'i drefnu ar gyfer 8 Awst ac yna'n fisol wedi hynny.* |
| **7** | **UFA**<br><br>Eglurodd GH fod Linc Cymru wedi llwyddo i sicrhau cyllid ar gyfer Tai a Gofal Cymdeithasol, a bydd yn gweithio mewn partneriaeth ag Adran Seicoleg Prifysgol De Cymru. Bydd Dr Gareth Morgan yn ymuno â'r fenter ac yn hapus i fynychu'r GCCTRh nesaf pe bai hynny'n ddefnyddiol.<br><br>Tynnodd RJ sylw at y ffaith bod HOS yn enghraifft dda iawn o Fyrddau Iechyd ac Awdurdodau Lleol yn cydweithio â'i gilydd ac y bydd yn fan cychwyn da ar gyfer gwaith ymchwil. |
| **8** | **Dyddiadau'r Cyfarfodydd yn 2023/2024:**<br><br>**Ch1 Dydd Mawrth 02 Mai 2023**<br>**Ch2 Dydd Mawrth 18 Gorffennaf 2023**<br>**Ch3 Dydd Mawrth 07 Tachwedd 2023**<br>**Ch4 Dydd Mawrth 06 Chwefror 2024**<br><br>**Camau Gweithredu:**<br>1. Soniodd SOK am y gwasanaeth cofleidiol 24 awr ac y byddai KF yn cysylltu â hi i gael rhagor o wybodaeth am hyn.<br>***Diweddariad:*** *Cyfeirir at y cynllun fel "cynllun a reolir". Mae'r bloc yn cynnwys 49 o fflatiau ar gyfer pobl dros 55 oed sy'n ddigartref a lle ceir trawstoriad o gyflyrau ag anghenion cymorth - camddefnyddio sylweddau, byw mewn hosteli, ymdrin ag iechyd meddwl, a chysgu ar y stryd. Mae'r Gwasanaeth Rheoli Tai ar gael 24 awr y dydd ar y safle ac mae'n cael ei reoli gan yr ALl; mae hyn oherwydd eu bod yn cydnabod y bydd angen cymorth parhaus ar bobl sy'n cael eu cartrefu i atal eu tenantiaeth rhag methu. Yn ogystal â hynny, mae'r ALl yn gallu cyrchu a darparu gwasanaethau cofleidiol arbenigol yn ôl yr angen i ddiwallu anghenion cymorth y preswylwyr.*<br>2. Mae Pen-y-bont ar Ogwr wedi comisiynu darn o waith i gael arweiniad clir ar estyniadau trwyddedau ac ati, ac roedd RJ yn hapus i'w rannu unwaith y cytunir arno o fewn yr ychydig fisoedd nesaf.<br>3. Bydd KF yn trefnu cyfarfodydd o'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen.<br>***Diweddariad:*** *Mae'r cyfarfod cyntaf wedi'i drefnu ar gyfer 8 Awst ac yna'n fisol wedi hynny.* |